# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Clwb Plant Segontiwm Cyf.**

**Ysgol yr Hendre**
**Ffordd Llanbeblig**
**Caernarfon**
**LL55 2SE**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cyhoeddi

**1 Hydref 2018**

***Welsh Government © Crown copyright 2018.***

*You may use and re-use the information featured in this publication (not including logos) free of charge in any format or medium, under the terms of the Open Government License. You can view the Open Government License, on the National Archives website or you can write to the Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU, or email: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*You must reproduce our material accurately and not use it in a misleading context.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Unigolyn cyfrifol Clwb Plant Segontiwm Cyf yw Delyth Mari Llwyd a'r personau â chyfrifoldeb yw Julie Edwards a Caroline Hobson. Lleolir y gwasanaeth yng Nghaernarfon, Gwynedd ac mae'n gweithredu o Ysgol yr Hendre. Mae wedi ei gofrestru i ofalu am uchafswm o 30 o blant o dan 12 oed. Yr oriau agor yw dydd Llun - ddydd Gwener (yn ystod y tymor) 15:00 - 17:45 ac (yn ystod y gwyliau) 08.30: - 17:45 Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at y "Cynnig Rhagweithiol" Cymraeg ac mae'n gweithredu yn Gymraeg.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

### 1. Asesiad cyffredinol

Mae'r plant yn mynegi eu barn yn hyderus ac yn gwybod y gwrandewir ar eu syniadau ac y cânt eu gwerthfawrogi. Mae gan y staff agwedd groesawgar a chyfeillgar ac maent yn gyson ac yn deg wrth reoli rhyngweithio. Mae'r amgylchedd yn ddiogel ac mae cyfleoedd i'r plant fynd ar iard yr ysgol er mwyn chwarae yn yr awyr agored. Mae'r arweinwyr yn rheoli'r gwasanaeth yn briodol.

### 2. Gwelliannau

Ers yr arolygiad hwn mae arweinwyr wedi cymryd camau ar fyrder i fynd i'r afael â rhai o'r materion a godwyd. Maent wedi cyflwyno llawlyfr llawn gwybodaeth i'r rhieni a datganiad o ddiben dwyieithog gwell, ynghyd ag asesiad risg manwl ar gyfer y canlynol: y gegin, y neuadd, casglu plant o'r dosbarth i'r clwb, casglu plant ar ddiwedd y sesiwn ac ar gyfer plant sy'n chwarae yn yr awyr agored. Rydym hefyd wedi cael tystysgrif hyfforddi diogelu'r person â chyfrifoldeb a thystiolaeth fod ganddo yswiriant atebolrwydd cyhoeddus cyfredol.

### 3. Gofynion ac argymhellion

Rydym wedi gwneud argymhellion mewn perthynas â'r datganiad o ddiben, damweiniau ac achosion, asesiadau risg, amser byrbrydau, datblygu annibyniaeth ac adnoddau amlddiwylliannol.

Gwelsom nad oedd y gwasanaeth yn bodloni gofynion cyfreithiol o ran driliau tân, ffeiliau staff a chadw cofrestr gywir. Rydym wedi dwyn y meysydd hyn i'w gwella at sylw'r arweinwyr.

## 1. Llesiant

**Crynodeb**

Mae'r plant yn gyfathrebwyr hyderus. Maent yn gyfarwydd â threfn y clwb ac mae hyn yn gwneud iddynt deimlo'n ddiogel. Mae'r plant yn rhyngweithio'n gadarnhaol ac yn mwynhau chwarae a dysgu. Maent yn annibynnol ond byddai cyfleoedd pellach yn eu helpu i ddatblygu eu sgiliau hunangymorth.

**Ein canfyddiadau**

### 1.1 I ba raddau y mae gan blant lais?

Mae'r plant yn gyfathrebwyr hyderus.

Siaradodd y plant am yr hyn roeddent yn mwynhau ei wneud wrth fynd i'r clwb, er enghraifft, dywedwyd wrthym eu bod yn mwynhau chwarae pêl-droed yn yr awyr agored, yn chwarae Mario Cart ar yr Xbox ac yn lliwio i mewn. Soniodd y plant eu bod yn mwynhau eu byrbrydau yn y clwb ac mai eu holl ffrwythau oedd pîn-afal, melon, mefus, afalau a bananas. Roeddent yn gofyn yn gwrtais am fwy o ddiod adeg byrbrydau ac yn ei chael heb oedi. Roedd dewis gan y plant ac roeddent yn hyderus i ymchwilio i'w hardal chwarae gan wneud dewisiadau o'u gwirfodd a oedd yn eu galluogi i ddilyn eu diddordebau eu hunain. Gwnaeth y plant ein galw ni draw atynt ac roeddent am ddangos i ni eu bod yn gallu gwneud y 'splits' a sefyll ar eu dwylo ac roeddent yn llawn cyffro am hyn.

Darperir gofal i'r plant sy'n eu galluogi i gyfathrebu'n gadarnhaol a mynegi eu hunain gyda hyder.

### 1.2 I ba raddau y mae plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus, a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Mae'r plant yn gyfarwydd â threfn y sesiwn ac mae hyn yn gwneud iddynt deimlo'n ddiogel.

Dywedodd y plant wrthym eu bod bob amser yn ffurfio llinell y tu allan i'r neuadd cyn mynd i mewn ar gyfer amser cylch a'u bod yn gwybod pryd i baratoi ar gyfer byrbryd. Roedd y plant yn mynd at y staff yn hawdd ac yn mwynhau sgwrsio â nhw wrth iddyn nhw gymryd rhan mewn gweithgareddau. Gofynnodd un plentyn i aelod o'r staff a allai ei helpu i wisgo ei esgidiau a gwnaeth hynny yn ddi-gwestiwn. Roedd y plant yn ffurfio cyfeillgarwch cadarnhaol, er enghraifft, yn helpu ei gilydd wrth chwarae gemau cyfrifiadurol, lliwio i mewn, ac ymarfer eu trefniadau gymnasteg a dawns ac roeddent yn chwerthin a chael hwyl wrth wneud. Roedd y plant yn cael eu canmol gydag iaith gadarnhaol a oedd yn gwneud iddynt deimlo'n dda amdanyn nhw eu hunain.

Mae'r plant yn cael gofal sy'n eu galluogi i deimlo'n hapus ac yn ddiogel ac yn eu helpu i deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi.

### 1.3 Pa mor dda y mae plant yn rhyngweithio?

Mae'r plant yn rhagweithio'n gadarnhaol.

Anogwyd y plant i ddweud *'os gwelwch yn dda'* a *'diolch'* drwy gydol y sesiwn. Roeddent yn sgwrsio â'r staff a'u ffrindiau mewn ffordd hapus a bodlon. Roedd y plant yn cydweithredu'n gadarnhaol, er enghraifft, pan oedd y staff yn gofyn iddynt roi adnoddau penodol i gadw. Yn ystod amser cylch roedd y plant yn dysgu cymryd eu tro i rannu eu newyddion a dangos unrhyw sgiliau newydd roeddent wedi eu dysgu yn ystod yr wythnos.

Mae'r plant yn cael cyfleoedd i'w helpu i ddysgu i gydweithredu'n dda.

### 1.4 I ba raddau y mae plant yn mwynhau chwarae a dysgu?

Mae'r plant yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu ac yn cael hwyl.

Roedd y plant yn mwynhau mynd i'r cwpwrdd storio gyda'r staff i ddewis y teganau a'r adnoddau roeddent am chwarae â nhw. Gwenodd un o'r plant wrth iddo ddewis gitâr coch a dangosodd i ni a'i ffrindiau sut i'w chwarae. Roedd y plant yn mwynhau bod yn egnïol a dangos eu sgiliau i'r grŵp ac i ni. Yn ystod amser cylch, dangosodd y plant eu symudiadau dawnsio a gymnasteg a gwnaeth eu ffrindiau fwynhau a dathlu hynny drwy guro eu dwylo. Roedd celf a chrefft yn weithgaredd poblogaidd ymhlith y plant a dangoswyd i ni sut i greu breichledi gan ddefnyddio bandiau lliw gwau ac addurniadau ar gyfer eu hystafell wely gan ddefnyddio gleiniau Hama. Bu'r plant yn ymarfer eu sgiliau ysgrifennu gan ddefnyddio amrywiaeth o bennau ffelt lliwgar a lliwio cymeriadau Disney, a dywedodd un plentyn wrthym yn llawn cyffro *"I've drawn Ariel the mermaid".* Am ei bod yn bwrw glaw ac nad oedd y plant yn gallu mynd allan i chwarae, gofynnodd rhai a allent chwarae gyda phêl-droed feddal dan do. Crëwyd lle iddynt a gwnaethant fwynhau pasio'r bêl i'w gilydd.

Mae'r plant yn cael cyfleoedd da i fwynhau eu dysgu drwy chwarae.

### 1.5 Pa mor dda y mae plant yn datblygu, yn dysgu ac yn dod yn annibynnol?

Mae'r plant yn annibynnol.

Roedd gan y plant hyder i ddefnyddio'r toiledau a'r cyfleusterau golchi dwylo yn annibynnol. Roedd rhai o'r plant yn mwynhau chwarae ar eu pen eu hunain gyda'r garej a detholiad o gerbydau, roedd eraill yn chwarae'n annibynnol ar lechen gyfrifiadurol ryngweithiol ac roedd plentyn arall yn hapus yn ymlacio ar fag ffa yn gwylio ei ffrindiau yn chwarae. Pan ddaeth hi'n adeg rhoi byrbryd cafodd y plant eu bwyd a'u diod. Awgrymwyd i'r staff y gallai'r plant wneud hyn eu hunain er mwyn rhoi cyfleoedd pellach iddynt ddatblygu eu sgiliau hunangymorth.

Mae'r plant yn cael gofal sy'n meithrin eu hannibyniaeth yn gadarnhaol ond byddai cyfleoedd pellach yn datblygu eu sgiliau hunangymorth.

## 2. Gofal a Datblygiad

### Crynodeb

Mae'r staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau ond nid ydynt wedi cynnal driliau tân rheolaidd. Maent yn rheoli'r rhyngweithio'n dda. Mae'r staff yn cynnig cyfleoedd i'r plant ddilyn eu diddordebau eu hunain a rhoi gofal ymatebol.

### Ein canfyddiadau

### 2.1 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn cadw plant yn ddiogel ac yn iach?

Mae'r staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau ond nid ydynt wedi cynnal driliau tân rheolaidd.

Roedd y staff yn hyrwyddo arferion iach ac yn annog y plant i olchi eu dwylo ar ôl defnyddio'r toiled a chyn iddynt fwyta eu byrbryd. Roedd y staff yn darparu amrywiaeth o ffrwythau ffres ac roedd dŵr ar gael drwy gydol y sesiwn er mwyn sicrhau bod y plant wedi eu hydradu ond yn ystod y byrbrydau roeddent yn cael sgwash. Gwnaethom siarad â'r unigolyn cyfrifol am ddarparu diodydd iachach yn ystod y byrbrydau er mwyn gwella iechyd y geg a lleihau lefelau siwgr y plant. Roedd y staff yn meddu ar y cymwysterau gofal plant priodol ac roedd eu tystysgrifau cymorth cyntaf pediatrig yn gyfredol. Gwnaethant gyfeirio at y gweithdrefnau diogelu cywir y byddent yn eu dilyn pe baent yn poeni am blentyn yn eu gofal. Nid oeddent wedi cynnal na chofnodi driliau tân rheolaidd er mwyn helpu'r plant a'r staff i wybod beth i'w wneud pe baent yn gorfod gadael y safle yn gyflym mewn argyfwng. Ni wnaethom gyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfiaeth gan na wnaethom ddod o hyd i dystiolaeth fod hyn yn cael effaith ar lesiant y plant ar yr achlysur hwn. Mae angen mynd i'r afael â'r mater hwn.

Mae'r staff yn ymroddedig ond mae angen gwella rhai meysydd er mwyn cydymffurfio â'r gofynion.

### 2.2 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn rheoli'r rhyngweithio?

Mae'r staff yn rheoli'r rhyngweithio'n dda.

Rhyngweithiodd y staff yn dda â'r plant gan siarad â nhw yn ystod eu gweithgareddau mewn ffordd gyfeillgar a thawel. Gwnaethant egluro i'r plant mewn ffordd amyneddgar yr hyn roeddent yn ei ddisgwyl ganddynt ac roeddent yn fodelau rôl o ymddygiad da eu hunain. Gwnaeth y staff ganmol y plant gydag iaith gadarnhaol a'u hannog i ddweud *'os gwelwch yn dda'* a *'diolch'.*

Mae'r staff yn creu amgylchedd cyfeillgar a thawel i'r plant lle maent yn dysgu parchu ei gilydd ac yn gwybod y gwahaniaeth rhwng da a drwg.

### 2.3 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad plant, ac yn diwallu eu hanghenion unigol?

Mae'r staff yn cynnig cyfleoedd i'r plant ddilyn eu diddordebau eu hunain a rhoi gofal ymatebol.

Roedd y staff wedi rhoi rhai o egwyddorion y cwricwlwm cyfnod sylfaen ar waith ac wedi rhoi meysydd dysgu penodol i'r plant ddewis ohonynt. Er enghraifft, roeddent wedi arddangos llyfrau mewn modd deniadol ac wedi paratoi'r ardal gyda matiau meddal a chlustogau er mwyn i'r plant allu darllen eu hoff lyfr mewn cysur. Cynigiwyd sawl gweithgaredd crefft i'r plant ac roedd y staff yn cymryd rhan ynddynt ochr yn ochr â'r plant. Gwnaethant annog y plant i ddysgu drwy ofyn cwestiynau iddynt a chynnig amrywiaeth o gyfleoedd chwarae. Roedd y staff yn helpu'r plant i wella eu sgiliau iaith yn ystod gweithgaredd amser cylch, yn cynnig cyfle iddynt rannu eu stori gan gynnwys unrhyw gynlluniau a oedd ganddynt ar ôl y clwb neu dros y penwythnos. Roeddent yn annog y plant i ailadrodd geiriau newydd i ymestyn eu geirfa a gwella eu hyder. Roedd y staff yn gwneud y chwarae a'r dysgu yn hwyl ac roedd hyn i'w weld yn amlwg wrth i'r plant chwarae'n hapus gyda'r rhai a oedd yn gofalu amdanynt a gyda'u ffrindiau. Er enghraifft, ymunodd y staff mewn gêm o bêl-droed gan helpu'r plant i ddatblygu eu hyder a'u sgiliau corfforol drwy ymarfer pasio a driblo'r bêl. Roedd y staff yn ymateb pan oedd angen rhoi tawelwch meddwl i'r plant ac roedd hyn yn helpu i ddiwallu anghenion unigol y plant.

Darparodd y staff weithgareddau hwylus i'r plant i'w helpu i ddatblygu eu chwarae a'u dysgu a mwynhau gwneud hynny.

## 3. Yr Amgylchedd

### Crynodeb

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel. Mae digon o le a chyfleusterau i ddiwallu anghenion y plant. Mae'r arweinwyr wedi sicrhau bod dodrefn, cyfarpar, teganau a deunyddiau ar gael i'r plant a'u bod yn briodol ac yn addas ar gyfer eu hoedran a'u cam datblygu.

### Ein canfyddiadau

### 3.1 Pa mor dda y mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel?

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel.

Roedd gan yr arweinwyr system ar gyfer rheoli mynediad i'r safle ac roedd cofnod o ymwelwyr yn cael ei gadw. Roeddent wedi sicrhau bod asesiadau risg wedi'u cwblhau ond nid oeddent yn gynhwysfawr nac yn fanwl iawn. Gwnaethom hefyd argymell i'r arweinwyr y dylent lunio rhestr wirio iechyd a diogelwch ddyddiol ar gyfer ardal fach agored y gegin. Gan fod yr ardal hon yn cael ei rhannu â'r ysgol, dywedodd yr arweinwyr wrthym fod rhai o'r eitemau a'r gwrthrychau digyswllt wedi cael eu storio/gosod yn y gegin gan staff yr ysgol. Gall hyn arwain at greu risgiau diangen i'r plant. Dywedwyd wrth yr arweinwyr bod angen iddynt drafod hyn ymhellach gyda'r ysgol er mwyn sicrhau bod staff yr ysgol yn osgoi rhoi a storio eu heitemau a'u gwrthrychau yn yr ardal honno. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod staff y clwb yn ymwybodol iawn o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â lles y plant ac roedd y staff yn deall ac yn dilyn y polisïau a'r gweithdrefnau ar gyfer y gwasanaeth.

Mae'r arweinwyr yn ymwybodol o'r angen i wneud gwelliannau priodol mewn rhai ardaloedd o'r amgylchedd er mwyn sicrhau bod unrhyw risg bosibl i'r plant yn cael ei dileu.

### 3.2 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas?

Mae digon o le a chyfleusterau i ddiwallu anghenion y plant.

Roedd yr arweinwyr wedi sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac wedi darparu ardal addas ar gyfer chwarae a dysgu. Ar hyn o bryd nid oes gan y plant unrhyw le i arddangos eu gwaith celf na ffotograffau ohonyn nhw eu hunain yn ystod gweithgareddau yn neuadd yr ysgol. Dywedodd yr arweinwyr wrthym eu bod wedi nodi hyn ac wedi tynnu sylw at y maes hwn i'w wella yn yr adolygiad o ansawdd gofal. Dywedwyd wrthym eu bod yn trafod hyn gyda'r Pennaeth er mwyn creu ymdeimlad o berthyn i blant y clwb. Roedd yr arweinwyr yn defnyddio'r lle a oedd ganddynt yn dda i ddarparu ardal ar gyfer byrbrydau, gwaith creadigol, chwarae gemau cyfrifiadurol, dawns/gymnasteg a phêl-droed. Roedd yr ardal chwarae awyr agored yn cynnig cyfleoedd i ddatblygu sgiliau corfforol y plant. Roedd yr arweinwyr yn sicrhau bod y plant yn cael eu goruchwylio'n briodol yn ystod eu gweithgareddau gan eu bod yn cael eu hannog i ddarganfod eu hamgylchedd. Er enghraifft, roedd y plant yn rhoi gwybod i'r staff pan oeddent am fynd i chwilio am adnoddau newydd i chwarae gyda nhw yn y cwpwrdd storio a phan oeddent yn mynd i'r toiledau yn y coridor y tu allan i'r neuadd.

Roedd yr arweinwyr yn sicrhau y gallai'r plant ddarganfod eu hamgylchedd a datblygu eu hannibyniaeth.

### 3.3 Pa mor dda y mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr adnoddau a’r cyfarpar o ansawdd?

Mae'r arweinwyr wedi sicrhau bod dodrefn, cyfarpar, teganau a deunyddiau ar gael i'r plant a'u bod yn briodol ac yn addas ar gyfer eu hoedran a'u cam datblygu.

Roedd yr arweinwyr wedi sicrhau y gallai'r plant fynd i'r ystafell storio gyda nhw i ddewis yr adnoddau roeddent am eu cael ar gyfer y sesiwn. Roedd yr adnoddau o ansawdd priodol ac yn hyrwyddo profiadau dysgu cadarnhaol. Roedd rhai meysydd dysgu diffiniedig megis cornel adeiladu, darllen, technoleg gwybodaeth ac ardal celf a chrefft. Roedd prinder adnoddau amlddiwylliannol ac awgrymwyd i'r arweinwyr y dylid ystyried hyn er mwyn helpu'r plant i ddysgu am y byd o'u hamgylch. Roedd yr arweinwyr wedi rhoi gemau a llechi cyfrifiadurol rhyngweithiol i'r plant a pheli troed i'r rhai a oedd am ymarfer eu sgiliau pêl.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau y gall y plant gael gafael ar deganau ac adnoddau o ansawdd priodol sy'n eu galluogi i ddilyn eu diddordebau eu hunain.

## 4. Arwain a Rheoli

### Crynodeb

Mae'r arweinwyr yn rheoli'r gwasanaeth yn briodol. Mae ganddynt system i werthuso'r gwasanaeth ac mae adroddiad cynhwysfawr ar yr adolygiad o ansawdd gofal wedi cael ei gwblhau. Mae'r arweinwyr yn rheoli'r staff a'r adnoddau mewn modd derbyniol. Mae'r arweinwyr wedi meithrin partneriaethau cadarnhaol â'r rhieni.

### Ein canfyddiadau

### 4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?

Mae'r arweinwyr yn rheoli'r gwasanaeth yn briodol ond mae angen gwella rhai meysydd.

Nid oedd y datganiad o ddiben yn adlewyrchu'n gywir yr hyn yr oedd y gwasanaeth yn ei gynnig ac nid oedd yn cynnwys y wybodaeth angenrheidiol fel y nodir yn safon un y safonau gofynnol cenedlaethol. Siaradom â'r arweinwyr a dywedwyd wrthym y byddent yn mynd i'r afael â hyn ac yn anfon fersiwn ddiwygiedig atom. Roedd yr arweinwyr yn sicrhau bod damweiniau ac achosion yn cael eu cofnodi ond nid oedd pob un o'r rhain wedi cael ei lofnodi gan y staff a'r rhieni. Roedd yr arweinwyr wedi cwblhau'r gofrestr cyn bod y plant yn bresennol er mwyn creu cofnod o'r lleoedd a gadwyd. Fodd bynnag, ar ddiwrnod yr arolygiad nid oedd y gofrestr yn adlewyrchu cofnod cywir o'r plant a oedd yn bresennol i gydymffurfio'n llawn â rheoliadau. Gwnaethom argymell bod yr arweinwyr yn cofnodi presenoldeb y plant ar wahân i'r cofnod o'r lleoedd a gadwyd, er mwyn nodi'n gywir pwy oedd yno ar ba ddiwrnod. Dywedodd yr arweinwyr wrthym y byddent yn mynd i'r afael â'r materion hyn. Ni wnaethom gyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfiaeth gan na wnaethom ddod o hyd i dystiolaeth fod hyn yn cael effaith ar lesiant y plant ar yr achlysur hwn. Fodd bynnag, mae'n rhaid mynd i'r afael â'r materion hyn.

Mae'r arweinwyr yn ystyried y meysydd y mae angen eu gwella.

### 4.2 Pa mor effeithiol yw'r gwaith o hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella?

Mae ganddynt system i werthuso'r gwasanaeth ac mae adroddiad cynhwysfawr ar yr adolygiad o ansawdd gofal wedi cael ei gwblhau.

Mae'r arweinwyr wedi cynnwys y sylwadau a gafwyd gan bawb sy'n defnyddio'r gwasanaeth ac wedi nodi'r hyn y mae'r gwasanaeth yn ei wneud yn dda a meysydd yr hoffent eu datblygu er mwyn sicrhau canlyniadau gwell i blant yn y dyfodol. Nododd rhai o'r holiaduron plant a ddychwelwyd yr hoffent chwarae pêl-droed a gemau cyfrifiadurol. Mae'r rhain wedi'u cynnwys yn y dewis sydd ar gael bellach. Nododd yr arweinwyr sut mae'r plant hefyd wedi gofyn am offer mwy amrywiol wrth chwarae yn yr awyr agored. Mae'r arweinwyr wedi gwneud cais llwyddiannus am grant i brynu offer i wella chwarae yn yr awyr agored. Dywedodd yr arweinwyr fod yr holiaduron rhieni a ddychwelwyd yn gadarnhaol ac nad oeddent wedi gwneud unrhyw sylwadau o ran gwella'r gwasanaeth.

Mae gan yr arweinwyr system effeithiol o werthuso'r gwasanaeth ac maent yn canolbwyntio ar wella canlyniadau i blant.

## 4.3 Pa mor effeithiol y mae ymarferwyr, staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?

Mae'r arweinwyr yn rheoli ac yn cefnogi'r staff yn gadarnhaol.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn mwynhau gweithio yn y gwasanaeth am eu bod yn teimlo bod yr arweinwyr yn eu cefnogi a'u bod yn gweithio'n effeithiol fel tîm. Roedd yr arweinwyr wedi sicrhau bod gan y staff rolau penodol a'u bod yn meddu ar gymwysterau addas. Maent hefyd wedi rhoi system ar waith i gofnodi prosesau arfarnu a goruchwylio er mwyn monitro llesiant y staff, yr ymarfer ac er mwyn nodi unrhyw anghenion hyfforddi. Gwelsom fod rhywfaint o'r wybodaeth reoleiddio ar goll mewn tair o'r pedair ffeil staff a arolygwyd. Hefyd, nid oedd un o'r ffeiliau staff hyn yn cynnwys tystysgrif Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yr aelod o staff. Dywedodd y person â chyfrifoldeb wrthym y byddai'n mynd i'r afael â'r mater hwn ac yn rhoi'r manylion i ni. Ni wnaethom gyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfiaeth gan nad oedd hyn yn cael effaith andwyol ar lesiant y plant. Hysbyswyd yr arweinwyr fod yn rhaid mynd i'r afael â'r materion hyn. Roedd yr yswiriant atebolrwydd cyhoeddus a oedd yn cael ei arddangos wedi dod i ben. Hysbyswyd yr arweinwyr am hyn a dywedwyd wrthym y byddent yn anfon y dystysgrif gyfredol atom.

Mae'r arweinwyr yn rheoli staff ac adnoddau yn ddigonol.

## 4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?

Mae'r arweinwyr wedi meithrin partneriaethau cadarnhaol â'r rhieni.

Gwnaethom siarad â dau riant a roddodd adborth cadarnhaol i ni. Gwnaethant ddweud wrthym fod eu plant yn mwynhau a bod y cyfathrebu â'r staff yn wych. Mae cylchlythyr llawn gwybodaeth yn cael ei rannu â'r rhieni gan dynnu sylw at yr hyn y mae'r plant wedi bod yn ei wneud yn y clwb. Dywedodd yr arweinwyr wrthym eu bod yn cael eu cefnogi gan yr ysgol a gall plant y clwb y tu allan i'r ysgol fynd ar iard yr ysgol i gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored a chwarae yn yr awyr iach.

Mae'r arweinwyr yng Nghlwb Plant Segontiwm Cyf yn meithrin partneriaethau effeithiol â'r rhieni a'r ysgol er mwyn sicrhau canlyniadau cadarn i'r plant.

## 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

**Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd yn yr arolygiad hwn:**

Gwnaethom hysbysu'r arweinwyr nad oeddent yn cydymffurfio â'r rheoliadau canlynol. Ni wnaethom gyflwyno hysbysiadau diffyg cydymffurfiaeth gan na wnaethom ddod o hyd i dystiolaeth fod hyn yn cael effaith andwyol ar lesiant y plant ar yr achlysur hwn. Mae'n rhaid mynd i'r afael â'r materion hyn.

**Rheoliad 28 o *Reoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010* ("Rheoliadau 2010"): Addasrwydd Gweithwyr:** nid oedd yr holl wybodaeth reoleiddio angenrheidiol am bob aelod o staff wedi cael ei chasglu i ddangos eu haddasrwydd i ofalu am blant.

**Rheoliad 30 (Atodlen 3) (6) o *Reoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010* ("Rheoliadau 2010"): Cadw Cofnodion:** nid oedd yr unigolyn cyfrifol yn gallu dangos cofrestr ddyddiol gywir o nifer y plant a oedd yn mynychu'r clwb.

**Rheoliad 38 (e) o *Reoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010* ("Rheoliadau 2010"): Rhagofalon Tân:** nid oedd yr unigolyn cyfrifol yn gallu dangos bod driliau tân wedi eu cynnal ar adegau rheolaidd ac addas a bod y plant a'r staff yn ymwybodol o'r weithdrefn i'w dilyn pe bai tân.

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Dylai'r arweinwyr ystyried:

- Rhoi mwy o wybodaeth yn y datganiad o ddiben, gan ddefnyddio'r is-benawdau yn safon un y *Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Rheoleiddio Gofal Plant i blant hyd at 12 oed* - fel canllaw;
- rhoi cyfleoedd i'r plant ddatblygu eu hannibyniaeth adeg byrbrydau, er enghraifft, helpu eu hunain i'r bwyd ar arllwys eu diodydd eu hunain;
- darparu diodydd iachach yn ystod y byrbrydau fel llaeth neu ddŵr ac osgoi rhoi sgwash;
- cynnwys gwybodaeth fanylach yn eu hasesiadau risg a chreu rhestr wirio iechyd a diogelwch ddyddiol;

- sicrhau bod y rhieni a'r staff yn llofnodi'r ffurflenni damweiniau ac achosion;

- datblygu adnoddau amlddiwylliannol er mwyn helpu'r plant i ddysgu am eu cymdeithas ehangach.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad dirybudd llawn a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen arferol o arolygiadau.

Ymwelodd un arolygydd â'r gwasanaeth ar ddydd Llun 16 Gorffennaf 2018 rhwng 15:15 pm - 18:40 pm.

Gwnaethom:

- arolygu sampl o ddogfennau, polisïau, pedair o'r ffeiliau staff a thri o gofnodion y plant;
- arsylwi arferion;
- archwilio'r ardaloedd a ddefnyddir, y teganau, yr adnoddau a'r amgylchedd;
- siarad â'r plant, y staff, yr unigolyn cyfrifol a phedwar rhiant;
- rhoi adborth i'r unigolyn cyfrifol dros y ffôn ddydd Mawrth 17 Gorffennaf 2018 am 17:30 pm.

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan:
www.arolygiaethgofal.cymru

## Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gofal Dydd Plant**<br>**Gofal y Tu Allan i'r Ysgol** |
| **Unigolyn Cyfrifol** | **Delyth Mari Llwyd** |
| **Person â chyfrifoldeb** | **Caroline Hobson**<br>**Julie Edwards** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **30** |
| **Ystod oedran y plant** | **O dan 12 oed** |
| **Oriau agor** | **O ddydd Llun i ddydd Gwener:**<br><br>**15:00 – 17:45 (yn ystod y tymor) a**<br><br>**08:30 – 17:45 (yn ystod y gwyliau).** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Cymraeg** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **20 Gorffennaf 2015** |
| **Dyddiad yr ymweliad(au) arolygu** | **16 Gorffennaf 2018** |
| **A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | Mae'r gwasanaeth hwn yw gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n bwriadu dod yn wasanaeth dwyieithog. |
| **Gwybodaeth Ychwanegol:** | |